WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Fflyd Lwyd yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru – **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**

Blwyddyn archwiliad: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 684A2016

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddir dan Adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod Adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yw'r trydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith oedd Stephen Lisle.

# Cynnwys

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn ymwybodol bod ei drefniadau ar gyfer rheoli ei fflyd lwyd yn wan. Cadarnhaodd ein gwaith ddiffyg cyffredinol o ran rheolau a chyfrifoldebau, ac amlygodd yr angen i fabwysiadu arfer da.


Crynodeb

Cefndir 4

Prif ganfyddiadau 5

Argymhellion 6

Canfyddiadau manwl

Nid yw Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi amlinellu unrhyw gyfrifoldebau penodol ar gyfer rheoli'r fflyd lwyd 7

Nid oes gan Wasanaeth Gwaed Gymru unrhyw gynllun, polisi na mesur perfformiad penodol mewn perthynas â'r fflyd lwyd 8

Ychydig iawn o reolau sydd ar waith gan Wasanaeth Gwaed Cymru i sicrhau bod cerbydau a gyrwyr y fflyd lwyd yn ddiogel a chyfreithiol 9

Ni chanfuom unrhyw dystiolaeth o fonitro a hysbysu corfforaethol am ddefnydd o'r fflyd lwyd a'i effeithiau ariannol ac amgylcheddol 12

Atodiad 1 – ymateb rheolwyr 13

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru'n berchen ar neu'n prydlesu fflyd fasnachol o gerbydau sy'n hanfodol i'r gwaith o gyflawni ei wasanaethau. Mae'r fflyd fasnachol yn cynnwys faniau, bysys bach a lorïau i gludo staff ac offer ar draws nifer o ysbytai a lleoliadau cymunedol. Yn ogystal â fflyd y sefydliad, mae rhai o'r staff yn defnyddio eu cerbydau eu hunain at ddibenion gwaith.

2 Fflyd lwyd yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at y defnydd o gerbydau preifat aelodau staff at ddibenion gwaith. Ymysg enghreifftiau, mae rhai staff yn teithio i sesiynau casglu gwaed, staff recriwtio rhoddwyr gwaed yn teithio i leoliadau o gwmpas Cymru, a staff sydd wedi eu lleoli ym mhencadlys Gwasanaeth Gwaed Cymru yn teithio i adeiladau eraill Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar gyfer cyfarfodydd.

3 Bob blwyddyn, ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, mae'r fflyd lwyd yn teithio dros 100 miliwn o filltiroedd ar gost o dros £50 miliwn, gan allyrru dros 20,000 tunnell o $CO_2$[1]. Oherwydd costau mor sylweddol, effeithiau amgylcheddol, a'r risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â cherbydau fflyd, mae'n hanfodol bod Gwasanaeth Gwaed Cymru'n rheoli ei fflyd lwyd yn effeithiol.

4 Gall defnyddio fflyd lwyd fod yn fanteisiol i sefydliadau oherwydd, yn yr amgylchiadau iawn, gall fflyd lwyd ddarparu dull teithio hyblyg a chost-effeithiol. Fodd bynnag, gall fflyd lwyd hefyd fod yn anodd i sefydliadau ei rheoli. Dyma rai cymhlethdodau cyffredin i gyflogwyr sy'n gysylltiedig â fflyd lwyd:

- mae deddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Dynladdiad Corfforaethol, yn gosod dyletswydd ar gyflogwyr i sicrhau bod staff yn ddiogel i yrru a bod eu cerbydau'n addas ar gyfer y ffordd, hyd yn oed os nad yw'r sefydliad yn berchen ar y cerbydau.
- gall fod yn anodd i sefydliadau wybod beth yn union yw eu cyfrifoldebau mewn perthynas â fflyd lwyd. Mae canllawiau gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau[2] yn nodi, o dan gyfraith iechyd a diogelwch, bod ar gyflogwyr yr un ddyletswydd gofal i yrwyr fflyd lwyd ag sydd ganddynt tuag at weithwyr cyflogedig sy'n gyrru cerbydau sy'n eiddo i gwmni neu'n cael eu prydlesu neu eu hurio gan gwmni.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r sefydliad, mae gan gyflogwyr sy'n defnyddio fflyd lwyd gyfrifoldebau personol. Fodd bynnag, gall fod yn anodd ar gyflogwyr i ddwyn perswâd ar staff i yswirio a threthu eu cerbydau'n briodol ac i sicrhau bod ganddynt dystysgrif MOT ddilys. Gall problemau tebyg godi wrth sicrhau bod gyrwyr fflyd lwyd yn meddu ar drwydded briodol.
- mae cyflogwyr yn aml yn ansicr ynghylch nifer y cerbydau, nifer y milltiroedd a deithiwyd, a'r costau a gafwyd trwy ddefnydd o'r fflyd lwyd.

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Seminar Fflyd Lwyd, Hydref 2010.

[2] Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau, Driving for Work: Own Vehicles, Awst 2015.

- mae rhai sefydliadau'n ei chael yn anodd gweinyddu'r fflyd lwyd, sy'n arwain at broblemau wrth gofnodi data a rheoli perfformiad.

5 Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi cydnabod bod fflyd lwyd yn faes a fyddai'n elwa ar archwiliad.
Hoffem gydnabod agwedd gadarnhaol Gwasanaeth Gwaed Cymru yn adnabod gwendidau yn y maes hwn ac yn tynnu sylw atynt yn ystod trafodaethau cynllunio archwiliad.

6 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn canlynol: **a yw Gwasanaeth Gwaed Cymru yn rheoli ei fflyd lwyd yn effeithiol?**

7 Roedd ein dull archwilio'n cynnwys cyfweliadau, yn ogystal â chais am ddogfennau a data. Gwnaethom hefyd gynnal ymchwil arfer da, gan adeiladu ar waith a wnaed gennym yn 2008 ar reoli fflyd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru[3]. Roedd cwmpas ein gwaith yn ymdrin â'r materion canlynol:

- polisïau a chynlluniau yn ymwneud â'r fflyd lwyd;
- rheolaeth weithredol fflyd lwyd – megis camau gweithredu i atal siwrneiau diangen a threfniadau i reoli defnydd o'r fflyd lwyd; a
- monitro gradd ac effaith y defnydd o fflyd lwyd – megis costau, effaith amgylcheddol, agweddau ar ddiogelwch a hysbysu corfforaethol.

# Prif ganfyddiadau

8 **Ar y cyfan, daethom i'r casgliad bod Gwasanaeth Gwaed Cymru yn ymwybodol bod ei drefniadau ar gyfer rheoli ei fflyd lwyd yn wan. Cadarnhaodd ein gwaith ddiffyg cyffredinol o ran rheolau a chyfrifoldebau, ac amlygodd yr angen i fabwysiadu arfer da**. Mae'r paragraffau isod yn nodi'r prif resymau dros y casgliad hwn.

9 Nid yw Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi amlinellu unrhyw gyfrifoldebau penodol ar gyfer rheoli'r fflyd lwyd. Er bod trefniadau rheoli yn ymwneud â'r fflyd fasnachol yn glir, mae diffyg atebolrwydd mewn perthynas â'r fflyd lwyd. Awgryma ein hymchwil arfer da fod atebolrwydd aneglur yn aml yn ffactor allweddol mewn sefydliadau sy'n esgeuluso problemau fflyd lwyd.

10 Nid oes gan Wasanaeth Gwaed Cymru gynllun, polisi na mesur perfformiad penodol yn ymwneud â fflyd lwyd er bod ganddo Strategaeth Rheoli Fflyd sydd ar fin cael ei diweddaru. Mae'r broses ddiweddaru'n gyfle delfrydol i ystyried a chynnwys materion fflyd lwyd o fewn yr agwedd strategol gyffredinol tuag at fflyd.

11 Ychydig iawn o reolau sydd ar waith gan Wasanaeth Gwaed Cymru i sicrhau bod cerbydau a gyrwyr fflyd lwyd yn ddiogel a chyfreithiol. Mae hwn yn faes lle mae cyfrifoldebau corfforaethol ar yr Ymddiriedolaeth yn ogystal â chyfrifoldebau personol dros ei gweithwyr cyflogedig. Canfu ein gwaith nad oes unrhyw wiriadau ffurfiol o drwyddedau ac yswiriant gyrwyr. Yn yr un modd, canfuom nad oedd trefniant penodol ar gyfer gwirio a oedd cerbydau fflyd lwyd yn meddu ar dystysgrif MOT ddilys, na rheolau am oedran, safonau diogelwch neu allyriadau carbon cerbydau fflyd lwyd.

[3] Swyddfa Archwilio Cymru, Archif Tudalennau Gwe Rheoli Fflyd.

12 Ni chanfuom unrhyw dystiolaeth o waith monitro corfforaethol ac adrodd am ddefnydd o'r fflyd lwyd a'i effeithiau ariannol ac amgylcheddol. Fodd bynnag, awgryma ein dadansoddiad ein hunain fod milltiroedd fflyd lwyd yn costio oddeutu £59,000 y flwyddyn i Wasanaeth Gwaed Cymru o'i gymharu â bil tanwydd y fflyd fasnachol o oddeutu £95,000. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i Wasanaeth Gwaed Cymru ganolbwyntio llawer mwy ar y fflyd lwyd o fewn agwedd gyffredinol y sefydliad tuag at reoli fflyd. Gallai'r ffocws ychwanegol hwn fod o fudd o ran cynaliadwyedd a gwerth am arian, yn ogystal ag o ran iechyd a diogelwch.

# Argymhellion

13 Mae Arddangosyn 1 yn nodi'r argymhellion yn dilyn ein hadolygiad.

Arddangosyn 1: argymhellion

| | |
|---|---|
| **Perchnogaeth o'r fflyd lwyd** | |
| A1 | Dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru gyflwyno cyfrifoldebau a dulliau adrodd priodol ar gyfer rheoli'r fflyd lwyd. |
| A2 | Dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru hysbysu ei staff am y cyfrifoldebau personol sydd gan yrwyr fflyd lwyd i sicrhau bod ganddynt drwyddedau ac yswiriant priodol. |
| **Cynllunio fflyd lwyd** | |
| A3 | Er mwyn cyfrannu at yr adolygiad o'r System Rheoli Fflyd sydd ar ddod, dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru ddatblygu uchelgeisiau, blaenoriaethau a chamau gweithredu penodol mewn perthynas â gwella rheolaeth o'r fflyd lwyd. |
| **Polisïau a phrosesau'r fflyd lwyd** | |
| A4 | Dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru ystyried cyflwyno prosesau cadarn ar gyfer gwirio trwyddedau, ardystiadau ac yswiriant gyrwyr fflyd lwyd yn rheolaidd. |
| A5 | Dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru roi gofyniad a gweithdrefn ar waith i staff hysbysu am ddamweiniau a digwyddiadau sy'n digwydd yn ystod siwrneiau fflyd lwyd. |
| A6 | Dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru ystyried cyflwyno prosesau priodol gyda'r nod o sicrhau bod cerbydau fflyd lwyd yn ddiogel a chyfreithiol. Efallai y bydd angen i'r prosesau hyn ystyried safonau diogelwch, ardystiad MOT a lefel allyriadau. |
| **Monitro defnydd o'r fflyd lwyd** | |
| A7 | Dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru gyflwyno gwaith monitro rheolaidd o'r milltiroedd, allyriadau a chostau sy'n gysylltiedig â defnydd y fflyd lwyd a dylai baratoi adroddiadau ynghylch y rhain. |
| **Camau gweithredu ar lefel Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r fflyd lwyd** | |
| A8 | Dylai Ymddiriedolaeth GIG Felindre ystyried argymhellion yr adroddiad hwn yn llawn, i asesu lefel y risg y mae'n gyfrifol amdani ac i benderfynu a oes angen camau gweithredu ar draws yr Ymddiriedolaeth gyfan mewn perthynas â'r materion a godwyd yn hytrach nag o fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru yn unig. |

# Canfyddiadau manwl

## Nid yw Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi amlinellu unrhyw gyfrifoldebau penodol ar gyfer rheoli'r fflyd lwyd

14 Yr agwedd gyntaf ar reoli'r fflyd lwyd a adolygwyd gennym oedd asesu a oedd arweinyddiaeth ac atebolrwydd corfforaethol clir. Gwelsom fod diffyg atebolrwydd am faterion yn ymwneud â'r fflyd lwyd yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru ac, o ganlyniad, mae'r fflyd lwyd wedi cael ei gadael heb ei rheoli i raddau helaeth. Cyfrifoldeb y Rheolwr Trafnidiaeth yw fflyd fasnachol y sefydliad, sy'n adrodd i'r Pennaeth Casgliadau, sydd yn ei dro'n adrodd i Gyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru. Fodd bynnag, nid oes gan unrhyw staff gyfrifoldeb penodol dros reoli'r fflyd lwyd yn ôl pob golwg.

15 Teimlwn ei bod yn bwysig nodi nad Gwasanaeth Gwaed Cymru yw'r unig sefydliad o bell ffordd i beidio a gweld y darlun llawn o ran materion fflyd lwyd. Mae erthygl Fleet Drive ddiweddar yn nodi bod fflydoedd llwyd yn 'anweledig' o fewn nifer o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat.

16 Mae canllawiau fflyd lwyd gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn nodi mai'r cam hanfodol cyntaf tuag at wella rheolaeth o'r fflyd lwyd yw pennu cyfrifoldebau clir. Yn ôl y canllaw, 'Diffyg cyfrifoldeb yw un o'r prif resymau pam fod y fflyd lwyd yn cael ei hesgeuluso mor aml.'

17 Canfu ein hymchwil arfer da erthygl ar wefan BusinessCar sy'n pwysleisio mor bwysig yw hi bod sefydliadau'n rheoli eu fflyd lwyd yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r erthygl ar y ddolen isod hefyd yn rhybuddio am beryglon pennu cyfrifoldebau rheoli i unigolion heb roi'r adnoddau angenrheidiol iddynt. Wrth bennu cyfrifoldebau newydd ar gyfer fflyd lwyd, efallai y bydd angen i Wasanaeth Gwaed Cymru ystyried swyddogaethau penodol ar gyfer y Tîm Trafnidiaeth a swyddogaeth Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu. Er bod y Tîm Trafnidiaeth yn arbenigo mewn rheoli fflyd, fe all y swyddogaeth Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu arwain at bolisïau a phrosesau sy'n gysylltiedig â fflyd lwyd i staff.

# Nid oes gan Wasanaeth Gwaed Gymru unrhyw gynllun, polisi na mesur perfformiad penodol mewn perthynas â fflyd lwyd

18 Er bod gan Wasanaeth Gwaed Cymru Strategaeth Rheoli Fflyd, nid yw'r ddogfen honno'n cynnwys y fflyd lwyd. Nid oes tystiolaeth chwaith o unrhyw gynlluniau, mesurau perfformiad neu uchelgeisiau ar gyfer y fflyd lwyd o fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru.

19 Mae adolygiad logisteg parhaus gan ymgynghorwyr ATOS o fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru'n debygol o arwain at adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Fflyd. Ymddengys y byddai hwn yn gyfle delfrydol i ystyried a ddylid cynnwys y fflyd lwyd fel rhan o agwedd strategol ehangach tuag at reoli fflyd.

20 Canfu ein hymchwil arfer da nifer o astudiaethau achos defnyddiol posibl a chanllawiau yn ymwneud â'r polisi a'r fframwaith strategol ar gyfer rheoli fflyd lwyd. Disgrifir yr enghreifftiau yn y pwyntiau bwled isod:

- mae Swyddfa Masnach y Llywodraeth wedi cynhyrchu templed achos busnes i sefydliadau ei ystyried wrth gynnig mentrau fflyd lwyd.
- mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi sicrhau llwyddiannau yn ei fflyd lwyd trwy bennu targed i leihau milltiroedd busnes. Mae'r fenter wedi lleihau milltiroedd fflyd lwyd ac wedi sicrhau arbedion sylweddol (Swyddfa Masnach y Llywodraeth, Menter Fflyd Lwyd, Astudiaeth Achos Asiantaeth yr Amgylchedd).
- dengys astudiaeth achos gan Gyngor Dinas Birmingham sut roedd datblygu Strategaeth Rheoli Fflyd eang yn rhan o broses wella a arweiniodd at arbedion sylweddol o ran y fflyd lwyd.
- mae Fleet Innovations wedi cynhyrchu polisi fflyd lwyd enghreifftiol.
- mae General Electric wedi cynhyrchu canllaw i helpu sefydliadau i reoli eu fflyd lwyd.
- mae Fleet News wedi cynhyrchu canllaw sy'n casglu'r arfer gorau o ran rheoli fflyd lwyd.
- mae'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau wedi cynhyrchu canllaw rheoli fflyd lwyd yn ogystal â thempled Polisi Cerbydau Gweithwyr.
- cynhaliodd Cynulliad Cyffredinol Maryland archwiliad ar reoli fflyd, a oedd yn cynnwys cyfrifiadau ynghylch pa mor gost-effeithiol yw defnyddio fflyd lwyd o'i gymharu â darparu cerbydau ar gyfer staff at ddibenion penodol.

# Ychydig iawn o reolau sydd ar waith gan Wasanaeth Gwaed Cymru i sicrhau bod cerbydau a gyrwyr fflyd lwyd yn ddiogel a chyfreithiol

21 Mae'n bwysig bod gan sefydliadau fframwaith o wiriadau a rheolau ar waith i sicrhau pan fydd staff yn defnyddio'u cerbydau at ddibenion busnes bod y cerbydau a'r gyrwyr yn ddiogel ac yn gyfreithiol. Mae canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar yrru yn y gwaith yn argymell y dylai sefydliadau wirio dilysrwydd trwyddedau gyrru eu staff yn gyfnodol[4]. Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau hefyd wedi cynhyrchu canllawiau sy'n nodi bod angen i sefydliadau sicrhau bod gan staff sy'n gyrru fflyd lwyd hawl gyfreithiol i wneud hynny.[5]

22 Canfuom mai ychydig iawn o reolau'n ymwneud â gyrwyr fflyd lwyd sydd gan Wasanaeth Gwaed Cymru ar hyn o bryd. Ymddengys nad oes unrhyw bolisi, proses neu ofyniad penodol bod gyrwyr yn darparu tystiolaeth bod ganddynt drwydded yrru briodol neu fod ganddynt yswiriant priodol i ddefnyddio cerbyd ar gyfer busnes.

23 Soniodd un aelod o staff am bolisi Gyrru yn y Gwaith ar lefel Ymddiriedolaeth er nad oedd neb arall y bu i ni siarad â nhw'n ymwybodol o'r polisi hwn. Rydym hefyd yn ymwybodol bod y system dreuliau ar-lein a ddefnyddir gan staff i hawlio ad-daliadau ar gyfer teithio fflyd lwyd yn cynnwys nodyn ymwadiad sy'n nodi y dylai staff drefnu yswiriant priodol ar eu cyfer eu hunain ar gyfer teithio at ddibenion busnes. Ar ei ben ei hun, nid yw ymwadiad yn ddigonol ar gyfer lleihau risgiau sy'n gysylltiedig â'r defnydd o fflyd lwyd.

24 Er bod proses ar gyfer gwirio trwyddedau gyrwyr fflyd fasnachol bob chwe mis, nid oes gan Wasanaeth Gwaed Cymru unrhyw broses sy'n cynnwys gyrwyr fflyd lwyd. Yn yr un modd, nid oes proses neu ofyn amlwg ar yrwyr fflyd lwyd i ddatgan unrhyw ardystiadau neu waharddiadau. Er bod gyrwyr fflyd fasnachol Gwasanaeth Gwaed Cymru'n derbyn hyfforddiant, nid oes hyfforddiant ar gyfer gyrwyr fflyd lwyd.

25 Canfu ein hymchwil arfer da nifer o erthyglau a gwefannau sy'n ymwneud â gwiriadau gyrwyr a allai fod yn ddefnyddiol:

- mae gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau ganllawiau sy'n amlinellu pwysigrwydd gwiriadau gyrwyr ac yn darparu awgrymiadau arfer da ynglŷn â chynnal gwiriadau o'r fath;


[4] Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Driving at work: Managing work-related safety, Ebrill 2014.

[5] Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau, Driving for Work:Own Vehicles, Awst 2015.

- mae erthygl yn Fleet News yn trafod pwysigrwydd sicrhau bod gyrwyr fflyd lwyd yn meddu ar yswiriant priodol;
- mae erthygl arall yn Fleet News yn trafod agweddau tuag at wirio trwyddedau gyrwyr;
- canfuom rywfaint o ymchwil yn awgrymu bod gyrwyr fflyd lwyd yn debygol o beri mwy o risg i ddiogelwch ar y ffyrdd na defnyddwyr ceir cwmni; ac
- mae gan Gyngor Bradford bolisi Gyrru ar gyfer Gwaith sy'n amlinellu proses i yrwyr fflyd lwyd ddatgan eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran trwyddedau gyrru, yswiriant a chyflwr eu cerbydau.

26 Diweddarwyd Cynllun Teithio Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Ebrill 2016 yn dilyn adolygiad helaeth o'n harferion gweithio ac ymgynghoriad â staff. Mae Arddangosyn 1 yn dangos y prif ofynion i staff sy'n gyrru ar fusnes Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r cynllun hefyd yn gofyn yn awr bod staff yn hysbysu Adnoddau Dynol ar unwaith am unrhyw ardystiadau neu bwyntiau ar eu trwydded, ac mae'n ofynnol bod cerbydau fflyd lwyd dan ddeng mlwydd oed, a bod eu hallyriadau $CO_2$ o fewn cyfyngiadau penodol[6].

Arddangosyn 2: mae'n rhaid i staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyrru at ddibenion gwaith sicrhau…




Ffynhonnell: Cynllun Teithio Swyddfa Archwilio Cymru

[6] 125g/km ar gyfer ceir nad ydynt yn cael eu gyrru gan betrol a 140g/km ar gyfer ceir sy'n cael eu gyrru gan betrol. Caiff y cyfyngiadau hyn eu hadolygu bob tair blynedd.

27 Canfuom mai ychydig iawn o reolau'n ymwneud â cherbydau fflyd lwyd sydd gan Wasanaeth Gwaed Cymru ar hyn o bryd. Mae canllawiau Gyrru ar gyfer Gwaith y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau'n nodi y dylai cerbydau fflyd lwyd fodloni safonau diogelwch penodol, ac y dylai sefydliadau gynnal gwiriadau cerbydau yn gyfnodol.

28 Nid oes gan Wasanaeth Gwaed Cymru unrhyw reolau ynghylch uchafswm oedran na milltiroedd cerbydau fflyd lwyd, na rheolau ynghylch dosbarthiadau diogelwch cerbydau, allyriadau carbon neu wiriadau i sicrhau bod tystysgrif MOT ddilys ar gyfer y cerbydau.

29 Mae canllawiau Gyrru ar gyfer Gwaith y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau yn nodi y dylai gyrwyr fflyd lwyd hysbysu eu rheolwyr llinell os ydynt wedi bod mewn damwain traffig ffyrdd sy'n ymwneud â gwaith. Yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru, mae proses ar waith ar gyfer hysbysu'r Adran Drafnidiaeth am ddamweiniau sy'n ymwneud â cherbydau fflyd fasnachol, gan ddefnyddio system hysbysu Datix. Nid oes unrhyw broses o'r fath ar gyfer damweiniau'n ymwneud â siwrneiau fflyd lwyd.

# Ni chanfuom unrhyw dystiolaeth o waith monitro a hysbysu corfforaethol am ddefnydd o'r fflyd lwyd a'i effeithiau ariannol ac amgylcheddol

30 Dywedodd y staff y bu i ni gyfweld â nhw wrthym nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw fonitro neu hysbysu corfforaethol am gost a defnydd cerbydau fflyd lwyd. Mewn gwirionedd, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru'n cael trafferth cynhyrchu data sy'n ymwneud â defnydd o'r fflyd fasnachol oherwydd ei fod yn dibynnu ar gofnodion fflyd ar ffurf papur.

31 Dengys ein dadansoddiad o'r data a geisiwyd gennym gan Wasanaeth Gwaed Cymru bod cyfanswm
y milltiroedd fflyd lwyd a deithiwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16 oddeutu 131,000.
Roedd y gost uniongyrchol o ad-dalu staff am y milltiroedd hyn oddeutu £59,000.

32 Awgryma amcangyfrifon gan y Rheolwr Trafnidiaeth fod y milltiroedd a deithir gan y fflyd fasnachol bob blwyddyn oddeutu 450,000 a bod cyfanswm y bil tanwydd ar gyfer y fflyd fasnachol oddeutu £95,000.

33 Mae'r ffigurau yn y ddau baragraff uchod yn awgrymu bod milltiroedd a chostau'r fflyd lwyd mewn gwirionedd yn elfen sylweddol o gyfanswm milltiroedd a chostau fflyd gyfan. Gan hynny, mae angen i Wasanaeth Gwaed Cymru roi sylw mwy amlwg i'r fflyd lwyd o fewn ei agwedd gyffredinol tuag at reoli fflyd.

34 Awgryma arferion da gan yr Adran Drafnidiaeth a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni y dylai sefydliadau geisio sicrhau bod eu data fflyd lwyd a gwybodaeth meincnodi perfformiad eu fflyd lwyd mor gywir â phosibl.

35 Tynnodd ein hymchwil arfer da sylw hefyd at waith gan Gyngor Wiltshire i leihau ei risgiau fflyd lwyd a gwella ei ddata am y fflyd lwyd trwy fuddsoddi yn ei systemau TG a data.

36 Canfuom hefyd adroddiad archwilio gan Archwilydd Cyffredinol De Cymru Newydd sy'n ystyried, ymysg nifer o faterion eraill, y ffyrdd y gallai ac y dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus fonitro defnydd o gerbydau preifat at ddibenion busnes.

37 Yn olaf, canfuom ganllaw helaeth ar reoli fflyd lwyd a gyhoeddwyd gan Gyngor Diogelwch Trafnidiaeth Ewrop sy'n argymell y dylai sefydliadau ddefnyddio proses i dracio eu fflyd lwyd yn ariannol ac yn amgylcheddol.

# Atodiad 1

## Ymateb rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (✓) | Derbyniwyd [Do/Naddo] | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru gyflwyno cyfrifoldebau a dulliau adrodd priodol ar gyfer rheoli'r fflyd lwyd. | Perchnogaeth glir ac ymwybyddiaeth gorfforaethol o faterion yn ymwneud â'r fflyd lwyd. | ✓ | Do | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu polisi ar gyfer rheoli'r fflyd lwyd yn briodol, gan amlinellu cyfrifoldebau a phrosesau ar gyfer rheoli'r fflyd lwyd. | Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu |
| A2 | Dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru hysbysu ei staff am y cyfrifoldebau personol sydd gan yrwyr fflyd lwyd i sicrhau bod ganddynt drwyddedau ac yswiriant priodol. | Mwy o ymwybyddiaeth gan staff o'u cyfrifoldebau a llai o risg bod staff yn gyrru heb fod yn ddiogel/cyfreithlon. | | Do | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi cyfrifoldebau personol staff sy'n yrwyr fflyd lwyd ac yn ymgorffori ymwybyddiaeth yn rhaglen sefydlu'r Ymddiriedolaeth. Bydd hyn yn barhaus yn unol â pholisi A1. | Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (✓) | Derbyniwyd [Do/Naddo] | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A3 | Er mwyn cyfrannu at yr adolygiad o'r System Rheoli Fflyd sydd ar ddod, dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru ddatblygu uchelgeisiau, blaenoriaethau a chamau gweithredu penodol mewn perthynas â gwella rheolaeth o'r fflyd lwyd. | Gwell agwedd strategol tuag at y fflyd lwyd | ✓ | Do | Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru'n datblygu dull rheoli fflyd ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru a bydd yn asesu unrhyw system ar gyfer ei gysylltu â'r gwaith o reoli'r fflyd lwyd neu sy'n gorgyffwrdd â'r gwaith hwnnw. Bydd hyn yn digwydd trwy gydol 2017-18 hyd at 2018-19. | Medi 2018 | Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru |
| A4 | Dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru ystyried cyflwyno prosesau cadarn ar gyfer gwirio trwyddedau, ardystiadau ac yswiriant gyrwyr fflyd lwyd yn rheolaidd. | Llai o risg bod staff yn gyrru heb fod yn ddiogel/cyfreithiol. | | Do | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn asesu priodoldeb a lefel y gwiriadau angenrheidiol i ddarparu mwy o sicrwydd a lleihau'r risg a bydd yn ymgorffori hyn mewn polisi yn unol ag A1. | Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu |
| A5 | Dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru roi gofyniad a gweithdrefn ar waith i staff hysbysu am ddamweiniau a digwyddiadau sy'n | Gwell ymwybyddiaeth gorfforaethol a dysgu gan ddamweiniau er mwyn gwella diogelwch staff/y cyhoedd. | | I'w ymchwilio | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn nodi'r gofynion a'r broses briodol yn unol ag A1 ac A2 uchod. | Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (✓) | Derbyniwyd [Do/Naddo] | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | digwydd yn ystod siwrneiau fflyd lwyd. | | | | | | |
| A6 | Dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru ystyried cyflwyno prosesau priodol gyda'r nod o sicrhau bod cerbydau fflyd lwyd yn ddiogel. | Llai o risg bod staff yn gyrru cerbydau nad ydynt yn ddiogel/cyfreithiol.<br>Y risg wedi'i lleihau. | | Do | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgorffori proses ddiogel, gyfreithiol a chymesur ym mholisi A1. | Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygiad Sefydliadol a’r Gweithlu |
| A7 | Dylai Gwasanaeth Gwaed Cymru gyflwyno gwaith monitro rheolaidd o'r milltiroedd, allyriadau a chostau sy'n gysylltiedig â defnydd y fflyd lwyd a dylai baratoi adroddiadau ynghylch y rhain. | Gwell ymwybyddiaeth gorfforaethol a gwell rheolaeth o effaith y fflyd lwyd ar yr amgylchedd ac ar gyllid. | | I'w ymchwilio | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymchwilio i gyfleoedd i goladu milltiroedd y fflyd lwyd a'u cysylltu â Chynllun Teithio'r Ymddiriedolaeth. Os cytunir, rhoi dull hysbysu ar waith i sicrhau bod gwaith monitro'n cael ei gyflawni. | Mawrth 2018 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau a'r Amgylchedd |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/mantais arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (✓) | Derbyniwyd [Do/Naddo] | Ymateb rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A8 | Dylai Ymddiriedolaeth GIG Felindre ystyried argymhellion yr adroddiad hwn yn llawn, i asesu lefel y risg y mae'n gyfrifol amdani ac i benderfynu a oes angen camau gweithredu ar draws yr Ymddiriedolaeth gyfan mewn perthynas â'r materion a godwyd yn hytrach nag o fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru yn unig. | Sicrwydd y gwneir y gorau o'r gwaith o reoli'r fflyd lwyd ar lefel Ymddiriedolaeth. | ✓ | Do | Cytunwyd – mae pob cam gweithredu wedi cael ei ystyried mewn perthynas â chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth ac nid Gwasanaeth Gwaed Cymru'n unig. | 30 Ebrill 2017 | Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru